**CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU**

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2005 Rhif (Cy. )

# ANIFEILIAID, CYMRU

## Rheoliadau TSE (Cymru) (Diwygio) 2005

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

**1.** Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau TSE (Cymru) 2002 (O.S. 2002/1416 (Cy.142) a ddiwygiwyd eisoes).

**2.** Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio O.S. 2002/1416 (Cy.142) drwy —

(a) ddiweddaru'r diffiniad o "the Community Transitional Measures"" yn rheoliad 3(1) o'r offeryn hwnnw er mwyn iddo gynnwys y diwygiad o Reoliad (EC) Rhif 999/2001 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n gosod rheolau ar gyfer atal, rheoli a difodi enseffalopathïau sbyngffurf trosglwyddadwy penodol (OJ Rhif L147, 31.5.2001, t.1) gan —

(i) Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 1494/2002 (OJ Rhif L225, 22.8.2002, t.3),

(ii) Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 1139/2003 (OJ Rhif L160, 28.6.2003, t.22), a

(iii) Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 1492/2004 (OJ Rhif L274, 24.8.2004, t.3) (*rheoliad 2(2)* ), a

(b) ychwanegu'r ilewm at y rhestr o feinweoedd sy'n rhaid eu tynnu o ddefaid a geifr hŷn a gigyddwyd mewn lladd-dy neu a gludwyd i ladd-dy ar ôl iddynt gael eu cigydda yn rhywle arall (*rheoliad 2(3)*).

**3.** Paratowyd arfarniad rheoleiddiol ar yr effaith y bydd y Rheoliadau hyn yn ei chael ar gostau busnes yn unol ag adran 65 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 ac fe'i gosodwyd yn llyfrgell Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Gellir cael copïau oddi wrth yr Asiantaeth

Safonau Bwyd, Llawr 11, Southgate House,  Caerdydd
CF10 1EW.

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2005 Rhif (Cy. )

# ANIFEILIAID, CYMRU

## Rheoliadau TSE (Cymru) (Diwygio) 2005

| | |
|---|---|
| *Wedi'u gwneud* | *2005* |
| *Yn dod i rym* | *31 Mai 2005* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan ei fod wedi'i ddynodi(**1**) at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(**2**) mewn perthynas â mesurau yn y maesmilfeddygol i ddiogelu iechyd y cyhoedd, drwy arfer y pwerau a roddwyd gan yr adran honno, ac ar ôl ymgynghori fel sy'n ofynnol gan Erthygl 9 o Reoliad (EC) Rhif 178/2002 Senedd Ewrop a'r Cyngor, sy'n pennu egwyddorion a gofynion cyffredinol cyfraith bwyd, yn sefydlu Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop ac yn pennu gweithdrefnau o ran materion diogelwch bwyd(**3**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

**Enwi a chychwyn**

**1.** Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau TSE (Cymru) (Diwygio) 2005, maent yn gymwys o ran Cymru a deuant i rym ar 31 Mai 2005.

**Diwygio Rheoliadau TSE (Cymru) 2002**

**2.**—(1) Diwygir Rheoliadau TSE (Cymru) 2002(**4**) yn unol â pharagraffau (2) a (3).

(2) Ym mharagraff (1) o reoliad 3 (dehongli), yn lle'r diffiniad o "the Community Transitional Measures" rhodder y diffiniad canlynol —

""the Community Transitional Measures" means —

---

(**1**) O.S. 2003/1246.
(**2**) 1972 p. 68.
(**3**) OJ Rhif L31, 1.2.2002, t.1. Diwygiwyd y Rheoliad hwnnw ddiwethaf gan Reoliad (EC) Rhif 1642/2003 Senedd Ewrop a'r Cyngor (OJ Rhif L245, 29.9.2003, t.4).
(**4**) O.S. 2002/1416 (Cy.142) a ddiwygiwyd gan O.S.2003/2756 (Cy. 267) ac O.S. 2004/2735 (Cy.242).

(a) Commission Regulation (EC) No. 1248/2001 of 22 June 2001 amending Annexes III, X and XI to Regulation (EC) No. 999/2001 of the European Parliament and of the Council as regards epidemio–surveillance and testing of transmissible spongiform encephalopathies(5);

(b) Commission Regulation (EC) No. 1326/2001 of 29 June 2001 laying down transitional measures to permit the changeover to Regulation (EC) No. 999/2001 of the European Parliament and of the Council for the prevention, control and eradication of certain transmissible spongiform encephalopathies, and amending Annexes VII and XI to that Regulation(6);

(c) Commission Regulation (EC) No. 270/2002 of 14 February 2002 amending Regulation (EC) No. 999/2001 of the European Parliament and of the Council as regards specified risk material and epidemio–surveillance for transmissible spongiform encephalopathies and amending Regulation (EC) No. 1326/2001 as regards animal feeding and the placing on the market of ovine and caprine animals and products thereof(7);

(d) Commission Regulation (EC) No. 1494/2002 of 21 August 2002 amending Annexes III, VII and XI to Regulation (EC) No. 999/2001 of the European Parliament and the Council as regards monitoring of bovine spongiform encephalopathy, eradication of transmissible spongiform encephalopathy, removal of specified risk materials and rules for importation of live animals and products of animal origin(8);

(e) Commission Regulation (EC) No. 1139/2003 of 27 June 2003 amending Regulation (EC) No. 999/2001 of the European Parliament and of the Council as

(5) OJ Rhif L173, 27.6.2001, t.12.
(6) OJ Rhif L177, 30.6.2001, t.61.
(7) OJ Rhif L45, 15.2.2002, t.4.
(8) OJ Rhif L225, 22.8.2002, t.3.

regards monitoring programmes and specified risk material(**9**); and

(f) Commission Regulation (EC) No. 1492/2004 of 23 August 2004 amending Regulation (EC) No. 999/2001 of the European Parliament and of the Council as regards eradication measures for transmissible spongiform encephalopathies in bovine, ovine and caprine animals, the trade and importation of semen and embryos of bovine and caprine animals and specified risk material(**10**);".

(1) Ym mharagraff (2)(b) o reoliad 33 (tynnu deunydd risg penodedig o garcasau mewn lladd-dai) mewnosoder yr ymadrodd ", ileum" o flaen y gair "and" lle'r ymddengys y gair hwnnw gyntaf.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**11**)

Dyddiad

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**9**) OJ Rhif L160, 28.6.2003, t.22.
(**10**) OJ Rhif L274, 24.8.2004, t.3.
(**11**) 1998 p.38.